CYPE(5)-19-20 - Papur i'w nodi 2

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AS
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

13 Gorffennaf 2020

Annwyl Lynne,

Yn ystod sesiwn graffu eich Pwyllgor ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg, ymrwymais i roi diweddariadau rheolaidd ar y rhaglen trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Hwn yw’r nawfed llythyr sy’n rhoi diweddariad fel hyn. Bydd y diweddariad hwn hefyd yn ymdrin â’r materion yr oeddech yn tynnu sylw atynt yn eich llythyr dyddiedig 18 Mehefin.

**1. Deddfwriaeth a chanllawiau statudol**

Er gwaethaf y cyfyngiadau sy'n cael eu creu gan bandemig Covid-19, mae gwaith i weithredu'r Ddeddf ADY yn llwyddiannus yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae fy swyddogion yn parhau i weithio ar y Cod a'r Rheoliadau ADY a'm bwriad o hyd yw eu gosod gerbron y Senedd cyn diwedd tymor hwn, er mwyn gallu cychwyn y system ADY newydd yn raddol o fis Medi 2021.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, cyhoeddais adroddiad cryno o'r ymatebion a oedd yn ymdrin â’r camsyniadau cyffredin yn deillio o'r gwaith diwygio. Ers hynny, y flaenoriaeth yw cwblhau'r Cod a'r Rheoliadau yn barod i'w gosod gerbron y Senedd a'u cyhoeddi.  Er mwyn sicrhau bod ein Cod drafft a'n rheoliadau yn diwallu anghenion ymarferwyr, rhieni a dysgwyr, rydym yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid o fewn y sector cyhoeddus, y sector iechyd a'r trydydd sector; yn ogystal â chynrychiolwyr y sefydliadau arbenigol ôl-16.  Mae'r gwaith hwn wedi galluogi fy

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

swyddogion i drafod yr adborth i'r ymgynghoriad a sut y gallai'r Cod a'r Rheoliadau diwygiedig ymdrin â'r hyn a godwyd yn yr adborth, pan fo'n briodol gwneud hynny.

## 2. Cymorth wrth weithredu / pontio

Mae'r Arweinwyr Trawsnewid ADY wedi darparu cyfres o ddogfennau sy'n tynnu sylw at arfer da ac yn crynhoi'r gweithgarwch trawsnewid sydd wedi digwydd yn eu rhanbarthau yn ystod 2019-20 a byddant yn darparu eu Cynlluniau Gweithredu Rhanbarthol ar gyfer 2020-21 yn fuan. Yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau, bu'r Arweinwyr Trawsnewid yn cyfarfod â swyddogion yn wythnosol, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf gan Grŵp Arweinyddiaeth Trawsnewid ADY ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'u cynlluniau rhanbarthol a'u cynlluniau addysg bellach ac i amlygu a thrafod unrhyw faterion wrth iddynt godi.

Fel rhan o'r gwaith i gynyddu adnoddau Cymraeg i ddysgwyr ag ADY, rydym wedi dyfarnu contract, yn amodol ar gytuno ar delerau ac amodau, ar gyfer cyfieithu tri llyfr i'r Gymraeg. Mae'r llyfrau hyn yn rhan o gyfres sydd wedi'i hanelu at addysgu sgiliau cymdeithasol, emosiynol a chyfathrebu i ddysgwyr o bob oed a bydd yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY.

Rydym hefyd yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid gan gynnwys Cynghrair Anghenion Dysgu Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA), i ddatblygu ein syniadau a'n deunyddiau sy'n ymwneud ag arferion cynhwysiant er mwyn darparu deunyddiau cyfeirio i'r rhai sy'n gweithio ym maes ADY.

## 3. Datblygu gweithlu

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn datblygu sgiliau'r gweithlu addysg i gefnogi'r broses o ddarparu'r system ADY newydd. Mae rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys datblygu cynnig dysgu proffesiynol penodol ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY).

Rydym yn cydweithio â'r Arweinwyr Trawsnewid ADY, Grŵp Achredu Dysgu Proffesiynol Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu llwybr achrededig a chydnabyddedig ar gyfer dysgu proffesiynol y CADY.

Rhagwelir y bydd modiwlau ADY a fydd yn cael eu datblygu fel rhan o'r cymhwyster Gradd Meistr Cenedlaethol newydd (MA mewn Addysg) yn ffurfio sail yr opsiwn achrededig. Mae'r opsiwn heb ei achredu ond sy'n cael ei gydnabod yn debygol o fod yn fodiwl dysgu ar wahân a fydd yn cyfrannu at ganlyniad mewn Pasbortau Dysgu Proffesiynol dysgwyr. Bydd y modiwl hwn ar gael ar blatfform dysgu digidol Llywodraeth Cymru, sef Hwb, a bydd yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio.


Mae cwmpas y prosiect bellach wedi'i gymeradwyo gan y Grŵp Llywio Dysgu Proffesiynol ADY ac rydym yn rhagweld y bydd grwpiau awduro ar gyfer y modiwlau dysgu yn cael eu sefydlu dros yr haf.

## 4. Codi ymwybyddiaeth

Mae Eliesha Cymru yn parhau i gydweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r hyfforddiant a deunyddiau ar gyfer gweithredu'r system ADY a chodi ymwybyddiaeth amdani. Cwrs e-ddysgu fydd yr elfen gyntaf mewn pecyn hyfforddi tair

rhan. Bydd y pecyn hwnnw ar gael dros yr haf a bydd ar lwyfan dysgu digidol Llywodraeth Cymru, sef Hwb. Bydd yn cael ei dargedu at yr unigolion hynny sy'n gweithio ym maes ADY yn bennaf, ond bydd ar gael i unrhyw un sydd â diddordeb mewn deall hanfodion y system ADY newydd. Bydd rhagor o hyfforddiant ar gael ar Hwb yn yr Hydref.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education